PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

# YR AROLWG BUSNES FFERM YNG NGHYMRU

## Llyfryn Incwm Fferm Cymru
## Canlyniadau 2022/23



**CYNNWYS** **Tudalen**


**Rhagair** 1

**Trosolwg** 2

**Cyflwyniad** 4

**Diffiniadau o Derminoleg a Nodiadau Eglurhaol** 5

**Data Fferm Gyfan**

Ffermydd mynydd gwartheg a defaid 7
Ffermydd mynydd defaid 9
Ffermydd ucheldir gwartheg a defaid 11
Ffermydd llawr gwlad gwartheg a defaid 13
Ffermydd godro: ardaloedd llai ffafriol 15
Ffermydd godro: llawr gwlad 17

**Data Elw Bras**

Defaid mynydd 19
Defaid ucheldir 19
Defaid llawr gwlad 20
Buchod sugno llawr gwlad 20
Buchod sugno ucheldir 21
Buchod sugno mynydd 21
Buchod godro ardaloedd llai ffafriol 22
Buchod godro llawer gwlad 22

**Data Costau Cynhyrchu**

Costau cynhyrchu cig oen 23
Costau cynhyrchu llaeth 23
Costau cynhyrchu cig eidion: lloi sugno 24
Costau cynhyrchu cig eidion: pesgi 24

**Anghenion Elw Fferm** 25

Prifysgol
Aberystwyth
University

# Llyfryn Incwm Fferm Cymru
# Canlyniadau 2022/23

## Arolwg Busnes Fferm

Athrofa y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig
Prifysgol Aberystwyth
Gogerddan
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EE

**Cyfarwyddwr**

Tony O'Regan

**Staff yr Uned**

Alix Arndt
Charlotte Bailey
Paul Heyhoe
Brenda Jones
Huw Morris
Dafydd Owen
Mirain Richards
Tegid Roberts
Huw Williams
Ian Williams

Ffôn: 01970 622253
E-bost: farmsurv@aber.ac.uk
www.aber.ac.uk/cy/ibers/research-and-enterprise/fbs

**Rhagair**

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn ymchwilio incwm ffermydd Cymru ers dros 85 o flynyddoedd. Mae'r Arolwg, a'i adnabyddir fel yr un mwyaf awdurdodol ar sefyllfa ariannol a pherfformiad incwm ffermydd, yn darparu gwybodaeth i wneuthurwyr polisi ar gyflwr economaidd y diwydiant a data meincnodi gwerthfawr ar gyfer asesu perfformiad ffermydd unigol.

Mae'r llyfryn hwn yn seiliedig ar yr Arolwg Busnes Fferm (ABFf) llawn sy'n cynnwys gwybodaeth a gasglwyd ar dros 550 o ffermydd Cymru a ddewiswyd ar hap. Bwriad y llyfryn yw darparu teclyn meincnodi sy'n hawdd ei ddefnyddio i ffermwyr, ac mae'n cynnwys y wybodaeth ariannol a ffisegol ddiweddaraf am y prif fathau o ffermydd yng Nghymru. Mae'r canlyniadau a ddangosir yn cynnwys addasiadau i rai agweddau o fethodoleg yr ABFf a'r ffordd o gyflwyno canlyniadau. Er enghraifft, mae mewnbynnau tybiannol megis gwerth rhentu ar gyfer ffermydd ym meddiant y perchennog a llafur di-dâl wedi cael eu cymryd allan tra bo taliadau cyllid wedi cael eu cynnwys, er mwyn i'r ffigurau hyn gynrychioli costau gwirioneddol. Mae'r llyfryn hwn yn dangos llafur di-dâl i gyfeirio yn unig ac ond yn cynnwys rhai mathau o ffermydd. Felly, ar gyfer cynnal unrhyw ddadansoddiad cynhwysfawr ac ar gyfer dadansoddi tueddiadau blwyddyn ar flwyddyn ar incwm, cyfeiriwch at y canlyniadau llawn a gyhoeddwyd arlein fel *ABFf yng Nghymru: Canlyniadau Ystadegol*.

Mae gwerth yr Arolwg yn dibynnu arno'n cynrychioli ffermio yng Nghymru ac felly mae'n ddymunol cael trosiant bach o ffermydd fel y gellir cynnwys rhai newydd yn rheolaidd. Rhaid i unrhyw ffermydd newydd a gaiff eu recriwtio fod o fath a maint addas ac felly'n gallu disodli ffermydd sy'n gadael yr Arolwg. Os oes gennych ddiddordeb mewn gwybod mwy am yr Arolwg a/neu gymryd rhan yn yr Arolwg, cysylltwch â mi.

Mae Prifysgol Aberystwyth wedi bod yn gysylltiedig ag astudiaethau'r tir ers 1878 a'r ABFf yw ei chytundeb ymchwil hynaf. Priodol felly fy mod yn cydnabod yn ddiolchgar y nifer fawr o ffermwyr ledled Cymru sydd wedi sicrhau bod gwybodaeth fanwl ar gael; eu cyfrifwyr a'u hymgynghorwyr sydd wedi cynorthwyo gyda darparu data, Llywodraeth Cymru, sy'n ariannu'r Arolwg presennol a staff yr Arolwg, ddoe a heddiw.

**Tony O'Regan (tor@aber.ac.uk)**
**Cyfarwyddwr yr Arolwg Busnes Fferm**

## Trosolwg

Mae canlyniadau'r llyfryn hwn yn cynnwys y blynyddoedd cyfrifo a ddaeth i ben rhwng 31 Rhagfyr 2022 a 31 Mawrth 2023 ac maent felly'n adlewyrchu amodau ffermio rhwng Ionawr 2022 a Mawrth 2023. Bwriad y trosolwg hwn yw rhoi cyd-destun a chipolwg o'r cyfnod y mae'r canlyniadau'n ei gynrychioli.

Roedd cynhaeaf rhesymol 2021 a gaeaf mwyn, ond gwlyb, 21/22, tra'n lleihau'r pwysau ar stociau'r gaeaf, wedi gohirio troi allan. Roedd gwanwyn sych, mwyn yn gyfyngiad ar dyfiant glaswellt a haf hir, sych a chynnes yn rhoi amodau delfrydol ar gyfer cynaeafu er bod y cnwd yn isel, yn enwedig porthiant. Arweiniodd hydref cynnes at dyfiant porthiant da ac fe wnaeth gwanwyn mwyn, sych a chynnar 22/23 leihau'r pwysau ar borthiant y gaeaf. Fodd bynnag, roedd llawer o ffermydd yn dal i fod yn brin o stociau ac felly yn gorfod prynu porthiant a gwerthu stoc yn gynnar.

Darparodd tywydd y gwanwyn amodau ŵyna a phesgi da. Arhosodd prisiau defaid yn debyg i'r flwyddyn flaenorol am y rhan fwyaf o'r tymor ar gyfer pob math o stoc, ond disgynnodd yn ddiweddarach. Roedd prisiau difa yn gryf, ond roedd gwlân, er eu bod yn uwch na 2021, yn dal yn hanesyddol isel. Parhaodd prisiau gwartheg wedi'u pesgi yn uchel am y mwyafrif o'r tymor er i brinder porthiant gorfodi rhai i werthu'n gynnar. Arhosodd prisiau gwartheg difa a stôr yn gryf fel y gwnaeth prisiau heffrod. Cafodd prisiau mewnbwn uwch ym mhob sector effaith sylweddol ar yr elw.

Cynyddodd pris llaeth trwy gydol y gwanwyn a'r haf gan gyrraedd uchafbwynt o dros 50c y litr i rai a pharhau'n uchel am weddill y cyfnod. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd rhywfaint o'r cynnydd hwn gan gostau mewnbwn uwch. Arhosodd prisiau stoc llaeth yn gryf am y cyfnod cyfan, er bod amrywioldeb rhwng rhanbarthau, cytundebau, prynwyr a systemau yn parhau fel y gwnaeth pryderon a phwysau parhaus y diciau.

Gyda stociau isel a galw mawr am gnydau ar ddechrau'r cyfnod, roedd y prisiau'n gryf ac yn parhau felly am y tymor cyfan. Roedd y tymor sych a materion cyflenwad/cost agrocemegol yn gwrthbwyso rhai o'r prisiau uwch. Fe wnaeth ansicrwydd parhaus leihau'r ardaloedd plannu rhai hadau olew a mewnbwn cnydau dwys. Unwaith eto roedd cnwd tatws ac india-corn yn drafferthus gydag amodau sych, ac roedd prisiau'n amrywio.

Mae pryder am broffidioldeb fferm o ganlyniad i chwyddiant cynyddol mewnbynnau a phwysau cysylltiedig ynghyd â

agwedd negyddol parhaus y cyhoedd am ffermio a newid hinsawdd ac ati yn arwain at heriau cynllunio busnes, mwy o bryder, straen a dirywiad yn lles meddwl ffermwyr.

Roedd agweddau eraill o bwys yn ystod y cyfnod yn cynnwys:- Codiadau mawr mewn costau mewnbynnau yn ymwneud â Masnach/Gwrthdaro ac yn arbennig tanwydd a thrydan; Mwy o bwysau ar gyllid fferm a chyfraddau llog sy'n cynyddu'n sylweddol; Prisiau mewnforio uwch ar gyfer agrogemegolion, prisiau gwrtaith uchel ac ansicr, a chostau deunyddiau adeiladu; Argaeledd a chostau peiriannau, offer a phartiau; Pryder parhaus ynghylch disodli incwm a gollwyd o'r Taliad Sylfaenol, cynlluniau amgylcheddol/cymhwysedd yn y dyfodol a pholisïau amaethyddol y DU yn y dyfodol; Argaeledd llafur gwael a chostau llafur uwch; Llai o dir ar gael a chost uwch tir a phori ar rent; Pwysau cynyddol sylweddol a pharhaus ar fentrau moch a dofednod gyda llawer yn rhoi'r gorau i gynhyrchu; Pryderon ynghylch cydymffurfiaeth a chostau Troi Treth yn Ddigidol i ffermwyr llai; Ehangu NVZs a goblygiadau storio/defnyddio slyri/tail; Materion defnyddio ac echdynnu dŵr.

Mae'r canlyniadau a gyflwynir yn amlygu gwahaniaethau perfformiad mawr. Er enghraifft, roedd y traean uchaf o elw ffermydd gwartheg a defaid mynydd o £ fesul hectar effeithiol dros ddwbl y cyfartaledd a gyflawnwyd. Yn yr un modd, ar ffermydd llaeth gwnaeth y cynhyrchwyr traean uchaf elw net o 14c/l yn fwy na'r traean isaf. Dangosodd cynhyrchwyr cig amrywiaeth tebyg gyda chynhyrchiant cig oen yn amrywio o wneud elw o 55c/kg i golli 114c/kg, a chig eidion sugno o 62c/kg plws i finws 116c/kg. Fodd bynnag, nid yw'r un o'r canlyniadau hyn yn ystyried cost llafur y ffermwr, ac mae ei absenoldeb, os caiff ei gamddefnyddio, yn rhoi darlun ffug o economeg cynhyrchu fferm. Y sector llaeth sy'n dangos hyn orau gan y gall costau llafur a phensiwn yn unig ychwanegu dros 10c/l, sydd wedyn yn gwthio costau cynhyrchu ar gyfer y traean uchaf i 37c/l a'r traean isaf yn nes at 47c/l.

Mae angen rhoi sylw arbennig hefyd i gyfraniad presennol Cynllun y Taliad Sylfaenol, cymorthdaliadau eraill, incwm amrywiol ac amrywiol i'r llinell waelod. Er enghraifft, cyfrannodd y pedwar hyn tua 25% o gyfanswm yr incwm (allbynnau) a 153% o'r elw, ar gyfartaledd, ar gyfer ffermydd gwartheg a defaid yr ucheldir. Gyda'r lefelau hyn o ddibyniaeth, mae'n anodd gweld faint o ffermydd Cymru sydd ag opsiynau cyfyngedig ar gyfer newid mentrau a/neu systemau ffermio, a all fod yn broffidiol heb ddibynnu ar incwm nad yw'n ymwneud â ffermio a thaliadau cymorth Llywodraeth Cymru.

## Cyflwyniad

Mae proffidioldeb yn ganolog i unrhyw fusnes fferm, er y bydd gan ffermwyr lawer o amcanion busnes a phersonol eraill. Gyda’r Taliad Sengl a Glastir yn cael eu disodli gan y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn 2025 a'r heriau economaidd parhaol eraill, dylai pob ffermwr wybod am eu costau cynhyrchu a sut maent yn cymharu â chostau cynhyrchwyr eraill. Mae’r amrywiaeth o ran perfformiad ac elw a welir yn y llyfryn hwn yn dangos ehangder y gwelliannau posib a thrwy gymharu neu ‘feincnodi’ perfformiad fferm, gellir adnabod ac ymateb i gryfderau a gwendidau’r busnes.

Mae’r canlyniadau yn y llyfryn wedi eu gosod allan fel a ganlyn gan ddangos data ar gyfer y busnesau yn gyfartalog â’r dreian uchaf o ran perfformiad:

**1. Data Fferm Gyfan (Tudalennau 7 – 18)**
Cyflwynir gyfrifon elw a cholled a mantolen gryno ar gyfer chwe gwahanol fath o fferm. Dengys y canlyniadau gyfartaledd elw neu golled y ffermydd hyn ynghyd â’r cyfartaledd fesul hectar. Dengys hefyd faint a graddfa stocio’r ffermydd ynghyd â dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol.

**2. Data Elw Bras (Tudalennau 19 – 22)**
Yn y llyfryn ceir data ar gyfer wyth gwahanol fenter fferm. Mae elw bras yn cymharu incwm gyda chostau uniongyrchol cynhyrchu. Mae angen cryn ofal wrth ddefnyddio elw bras gan nad yw costau anuniongyrchol (sefydlog) y cynhyrchu yn cael eu hystyried.

**3. Data Costau Cynhyrchu (Tudalennau 23 – 24)**
Yn y llyfryn ceir costau cynhyrchu ar gyfer pedwar allbwn amaethyddol. Ystyrir cyfanswm cost cynhyrchu fesul uned. Trwy ystyried y costau uniongyrchol ac anuniongyrchol (a ddyfernir fesul uned da byw) mae cynhyrchwr mewn gwell lle i ystyried pa mor gystadleuol ac effeithiol yw’r fenter.

## Diffiniadau o Derminoleg a Nodiadau Eglurhaol

| | |
|---|---|
| *Hectarau effeithiol (Eff. Ha.)* | Golyga arwynebedd y fferm gyfan ar ôl tynnu arwynebedd ffyrdd, coetiroedd, tir diffaith ac adeiladau. Ystyrir porfa fras yn ôl ei arwynebedd cyfwerth o dir pori da. |

***Mathau o Ffermydd***

| | |
|---|---|
| *Mynydd* | Yn yr Ardal Dan Anfantais Fawr yn bennaf. |
| *Ucheldir* | Yn yr Ardal Dan Anfantais yn bennaf. |
| *Llawr Gwlad* | Y tu allan i'r Ardal Llai Ffafriol yn bennaf. |

***Data Fferm Gyfan***

| | |
|---|---|
| *Penderfynu data fferm gyfan* | Dynodir y cynhyrchwyr uchaf yn ôl elw ar ôl rhent a chyllid fesul hectar effeithiol. |
| *Cymorthdaliadau anuniongyrchol* | Cymorthdaliadau na gafwyd eu dadgyplu e.e. cynllun Organig a Glastir. |
| *Costau cnydau eraill* | Yn cynnwys holl gostau porthiant a chnydau eraill e.e. hadau, chwistrellon, lapio a chortyn ond nid gwrtaith a chontractio. |
| *Contractio penodedig* | Contractio y gellir ei gysylltu â mentrau penodedig e.e. combeinio, cneifio a gwasgaru slyri. |
| *Costau fferm cyffredinol* | Yn cynnwys trydan, ffôn, yswiriant, trwyddedau, ffioedd proffesiynol a thanysgrifiadau. |
| *Incwm amrywiol* | Yn cynnwys contractio, rhent bythynnod, taliadau fforddfraint ac unrhyw incwm amrywiol arall. Yn cynnwys elw o unrhyw fentrau arall sydd ddim yn arddangos. |
| *Cyfran o'r fferm a berchnogir* | Gwerth Net wedi ei fynegi fel canran o'r asedau cyfan. |
| *Cyfradd Stocio (glu/adj.forage ha)* | Unedau pori da byw fesul hectar o dir porthiant wedi'i gymhwyso. |
| *Unedau Da Byw (LU) ac Unedau Pori Da Byw (GLU)* | Cyfnewidir niferoedd da byw yn unedau da byw ar sail amcangyfrif o anghenion egni, er mwyn cyfrifo cyfanswm stocio'r da byw sy'n pori ar y fferm. |
| *Buchod godro – allbwn arall* | Allbwn net o werthu / brynu gwartheg a lloi. Hefyd yn cynnwys newid mewn gwerth. |
| *Incwm o Gynhyrchu Egni* | Yn cynnwys incwm o brosiectau cynhyrchu egni o eiddo'r ffermwr ac eraill, gan gynnwys gwynt, haul, biomas, dŵr, AD ac ati. |

| | |
|---|---|
| *Llafur taledig* | Cyfanswm y llafur a dalwyd yn cynnwys llafur achlysurol, rhan amser a llawn amser. |
| *Llafur di-dâl (heb gynnwys ffermwr a'i briod)* | Llafur di-dâl neu lafur a dderbynnir am daliad sydd yn llai na'r hyn a delir fel arfer am y gwasanaeth. Ni chaiff llafur di-dâl ei gynnwys yn yr elw ar ôl rhent a chyllid. |
| *Costau tir* | Yn cynnwys costau'n berthnasol i atgyweirio adeiladau ac adnoddau tir e.e. gwrychoedd, ffensio, walio, ffosydd a chlwydi. Hefyd yn cynnwys costau dŵr. |
| *Cyllid* | Yn cynnwys costau banc, taliadau llog ac unrhyw log prydlesu / hur-bryniant. Dim yn cynnwys ad-daliadau cyfalaf. |
| ***Data Elw Bras*** | Y pen ar sail y fuches / ddiadell. Dangosir i'r mentrau penodol drwy dynnu'r costau uniongyrchol (amrywiol) o'r allbwn perthnasol. |
| *Costau da byw eraill* | Prynu deunyddiau megis gwellt, comisiwn gwerthu a chostau penodol eraill y mentrau da byw. |
| *Porthiant a chostau porthiant* | Yn cynnwys costau eraill i borthiant, gwrtaith, contractio porthiant a chostau tir pori tymhorol. |
| ***Data Costau Cynhyrchu*** | Cyfrifir drwy rannu'r costau amrywiol a sefydlog gyda'r cilogram o gig (mewn pwysau byw) neu litr o laeth a gynhyrchir. Penodi'r y costau sefydlog ar unedau pori da byw ar ôl i'r cyfran o unrhyw dir âr a / neu incwm amrywiol gael ei ddidynnu. Yn drefnedig drwy elw net. |
| *Adnewyddu buches/diadell* | Newid yng ngwerth da byw magu, wedi ystyried gwerthiant anifeiliaid a phryniant anifeiliaid magu. |
| *Pŵer a pheiriannau* | Yn cynnwys atgyweirio peirianwaith, tanwydd, contractio arall a dibrisio peiriannau. |
| *Adeiladau* | Costau tir a dibrisiad adeiladau. |
| *Elw net* | Allbwn ar ôl cyfanswm costau mewnbwn i fentrau. |
| ***Meintiau sampl*** | Lle mae maint sampl yn pump neu lai o ffermydd, ni ddangosir data. |

## FFERMYDD MYNYDD GWARTHEG A DEFAID 2022/23

**DATA FFERM GYFAN** Nifer o ffermydd: 150

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 51,821 | 392 | 407 |
| Defaid | 58,660 | 444 | 527 |
| Cnydau a phorthiant | 3,107 | 24 | 31 |
| Taliad Sylfaenol | 26,340 | 199 | 225 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 5,516 | 42 | 70 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 5,068 | 38 | 70 |
| Incwm amrywiol | 8,383 | 63 | 55 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **158,895** | **1,202** | **1,385** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 26,086 | 197 | 150 |
| Costau tir pori tymhorol | 7,069 | 53 | 73 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 5,843 | 44 | 46 |
| Costau da byw eraill | 9,406 | 71 | 68 |
| Gwrteithiau | 8,154 | 62 | 65 |
| Costau cnydau eraill | 2,282 | 17 | 16 |
| Contractio penodedig | 5,845 | 44 | 40 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **64,685** | **488** | **458** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 4,662 | 35 | 32 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 760 | 6 | 6 |
| Tanwydd a thrwsio | 15,695 | 119 | 109 |
| Dibrisiant peiriannau | 14,928 | 113 | 108 |
| Costau ffermio cyffredinol | 13,354 | 101 | 99 |
| Costau tir | 5,153 | 39 | 32 |
| Dibrisiant adeiladau | 5,528 | 42 | 37 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **60,080** | **455** | **423** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **124,765** | **943** | **881** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **34,130** | **259** | **504** |
| Rhent | 3,754 | 28 | 20 |
| Cyllid | 6,247 | 47 | 20 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **24,129** | **184** | **464** |
| Llafur di-dâl | 7,666 | 58 | 58 |

## FFERMYDD MYNYDD GWARTHEG A DEFAID 2022/23

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 75 | 8 | 67 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,936,249 | 309,714 | 1,608,099 |
| CYFANSWM DYLEDION | 138,560 | 78,196 | 150,024 |
| | | 0 | |
| **GWERTH NET** | **1,797,689** | **231,518** | **1,458,075** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 93 | 75 | 91 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 118.75 | 110.82 |
| Ydau a chnydau eraill | 0.94 | 0.68 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 43.60 | 81.87 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **163.29** | **193.37** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **132.14** | **135.43** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 38 | 36 |
| Gwartheg eraill | 81 | 87 |
| Defaid magu | 646 | 668 |
| Defaid eraill | 448 | 493 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.23 | 1.33 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 0.87 | 0.99 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ yoen) | 96.55 | 96.40 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.86 | 0.90 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,470 | 1,462 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 1,013 | 1,042 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 0.94 | 0.96 |

## FFERMYDD MYNYDD DEFAID 2022/23

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 91

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 10,365 | 74 | 91 |
| Defaid | 58,889 | 419 | 555 |
| Cnydau a phorthiant | 3,102 | 22 | 24 |
| Taliad Sylfaenol | 31,577 | 225 | 257 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 8,330 | 59 | 90 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 945 | 7 | 7 |
| Incwm amrywiol | 7,453 | 53 | 96 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **120,661** | **859** | **1,120** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 17,985 | 128 | 150 |
| Costau tir pori tymhorol | 5,110 | 36 | 56 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 4,740 | 34 | 39 |
| Costau da byw eraill | 5,628 | 40 | 55 |
| Gwrteithiau | 5,916 | 42 | 50 |
| Costau cnydau eraill | 1,484 | 11 | 13 |
| Contractio penodedig | 3,601 | 26 | 23 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **44,464** | **317** | **386** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 2,857 | 20 | 17 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 834 | 6 | 7 |
| Tanwydd a thrwsio | 11,726 | 83 | 94 |
| Dibrisiant peiriannau | 12,292 | 88 | 103 |
| Costau ffermio cyffredinol | 11,610 | 83 | 83 |
| Costau tir | 3,507 | 25 | 26 |
| Dibrisiant adeiladau | 2,979 | 21 | 23 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **45,805** | **326** | **353** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **90,269** | **643** | **739** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **30,392** | **216** | **381** |
| Rhent | 2,833 | 20 | 9 |
| Cyllid | 2,624 | 19 | 13 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **24,935** | **177** | **359** |
| Llafur di-dâl | 5,232 | 37 | 30 |

## FFERMYDD MYNYDD DEFAID 2022/23

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 47 | 8 | 36 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,647,580 | 208,924 | 1,537,516 |
| CYFANSWM DYLEDION | 30,815 | 64,533 | 79,656 |
| **GWERTH NET** | **1,616,765** | **144,391** | **1,457,860** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 98 | 69 | 95 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 111.88 | 111.15 |
| Ydau a chnydau eraill | 0.34 | 1.02 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 78.90 | 119.85 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **191.12** | **232.02** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **140.43** | **147.95** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 9 | 12 |
| Gwartheg eraill | 17 | 19 |
| Defaid magu | 795 | 919 |
| Defaid eraill | 480 | 613 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.12 | 1.22 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 0.67 | 0.79 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen) | 92.08 | 97.63 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.92 | 0.93 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,347 | 1,415 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 1,011 | 1,067 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 0.61 | 0.62 |

## FFERMYDD UCHELDIR GWARTHEG A DEFAID 2022/23

**DATA FFERM GYFAN** Nifer o ffermydd: 95

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 41,534 | 433 | 528 |
| Defaid | 39,728 | 415 | 590 |
| Cnydau a phorthiant | 8,434 | 88 | 143 |
| Taliad Sylfaenol | 17,309 | 181 | 194 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 1,527 | 16 | 22 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 2,317 | 24 | 38 |
| Incwm amrywiol | 9,464 | 99 | 152 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **120,313** | **1,256** | **1,667** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 15,757 | 164 | 174 |
| Costau tir pori tymhorol | 3,185 | 33 | 40 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 4,025 | 42 | 42 |
| Costau da byw eraill | 6,607 | 69 | 73 |
| Gwrteithiau | 8,539 | 89 | 118 |
| Costau cnydau eraill | 2,535 | 26 | 36 |
| Contractio penodedig | 4,928 | 51 | 59 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **45,576** | **474** | **542** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 3,527 | 37 | 44 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 883 | 9 | 10 |
| Tanwydd a thrwsio | 11,566 | 121 | 128 |
| Dibrisiant peiriannau | 12,809 | 134 | 150 |
| Costau ffermio cyffredinol | 11,037 | 115 | 113 |
| Costau tir | 4,489 | 47 | 37 |
| Dibrisiant adeiladau | 3,367 | 35 | 47 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **47,678** | **498** | **529** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **93,254** | **972** | **1,071** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **27,059** | **284** | **596** |
| Rhent | 3,906 | 41 | 51 |
| Cyllid | 3,133 | 33 | 23 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **20,020** | **210** | **522** |
| Llafur di-dâl | 4,384 | 46 | 43 |

## FFERMYDD UCHELDIR GWARTHEG A DEFAID 2022/23

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 50 | 5 | 40 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,357,340 | - | 1,287,252 |
| CYFANSWM DYLEDION | 56,212 | - | 109,486 |
| **GWERTH NET** | **1,301,128** | **-** | **1,177,766** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 96 | - | 91 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 89.06 | 89.75 |
| Ydau a chnydau eraill | 2.50 | 4.28 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 10.60 | 15.34 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **102.16** | **109.37** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **95.81** | **102.53** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 22 | 22 |
| Gwartheg eraill | 71 | 85 |
| Defaid magu | 341 | 428 |
| Defaid eraill | 256 | 316 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.36 | 1.49 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 1.04 | 1.29 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ yoen) | 106.13 | 113.62 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.86 | 0.90 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ ypen) | 1,478 | 1,524 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 1,025 | 1,115 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 0.99 | 1.15 |

## FFERMYDD LLAWR GWLAD GWARTHEG A DEFAID 2022/23

**DATA FFERM GYFAN** Nifer o ffermydd: 61

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Gwartheg cig eidion | 59,466 | 651 | 883 |
| Defaid | 33,721 | 369 | 517 |
| Cnydau a phorthiant | 14,356 | 157 | 171 |
| Taliad Sylfaenol | 16,489 | 180 | 177 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 2,248 | 25 | 40 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 3,035 | 33 | 79 |
| Incwm amrywiol | 10,238 | 112 | 212 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **139,553** | **1,527** | **2,079** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 15,649 | 171 | 167 |
| Costau tir pori tymhorol | 4,596 | 50 | 87 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 3,539 | 39 | 39 |
| Costau da byw eraill | 7,717 | 84 | 105 |
| Gwrteithiau | 10,199 | 112 | 122 |
| Costau cnydau eraill | 3,990 | 44 | 50 |
| Contractio penodedig | 6,550 | 72 | 68 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **52,240** | **572** | **638** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 3,266 | 36 | 56 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 739 | 8 | 7 |
| Tanwydd a thrwsio | 13,619 | 149 | 166 |
| Dibrisiant peiriannau | 13,347 | 146 | 175 |
| Costau ffermio cyffredinol | 12,225 | 134 | 128 |
| Costau tir | 4,900 | 54 | 53 |
| Dibrisiant adeiladau | 5,342 | 58 | 87 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **53,438** | **585** | **672** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **105,678** | **1,157** | **1,310** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **33,875** | **370** | **769** |
| Rhent | 7,168 | 78 | 92 |
| Cyllid | 5,011 | 55 | 73 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **21,696** | **237** | **604** |
| Llafur di-dâl | 3,816 | 42 | 50 |



Cynnwys

# FFERMYDD LLAWR GWLAD GWARTHEG A DEFAID 2022/23

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 25 | 10 | 26 |
| CYFANSWM ASEDAU | 1,581,568 | 250,037 | 1,479,523 |
| CYFANSWM DYLEDION | 73,631 | 31,376 | 173,375 |
| | | | |
| **GWERTH NET** | **1,507,937** | **218,661** | **1,306,148** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 95 | 87 | 88 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 80.26 | 82.61 |
| Ydau a chnydau eraill | 4.47 | 4.26 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 12.28 | 12.12 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **97.01** | **98.99** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **91.41** | **94.79** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod sugno | 23 | 19 |
| Gwartheg eraill | 105 | 151 |
| Defaid magu | 284 | 313 |
| Defaid eraill | 185 | 256 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad ) | 1.36 | 1.39 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (nifer y ddafad) | 1.16 | 1.29 |
| Gwerthiant ŵyn wedi'u pesgi (£ y oen) | 117.38 | 121.63 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.91 | 0.95 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi ( £ y pen) | 1,479 | 1,495 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 1,029 | 1,056 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 1.22 | 1.46 |

# FFERMYDD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL 2022/23

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 63

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Buchod godro - llaeth | 593,293 | 4,855 | 6,733 |
| Buchod godro - allbwn arall | 5,221 | 43 | 75 |
| Gwartheg eraill | 72,509 | 593 | 688 |
| Defaid | 18,871 | 154 | 61 |
| Cnydau a phorthiant | 4,166 | 34 | -5 |
| Taliad Sylfaenol | 20,289 | 166 | 186 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 451 | 4 | 1 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 3,381 | 28 | 47 |
| Incwm amrywiol | 9,336 | 76 | 67 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **727,517** | **5,953** | **7,853** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 195,784 | 1,602 | 1,830 |
| Costau tir pori tymhorol | 26,579 | 217 | 296 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 14,260 | 117 | 119 |
| Costau da byw eraill | 42,433 | 347 | 366 |
| Gwrteithiau | 41,262 | 338 | 410 |
| Costau cnydau eraill | 8,295 | 68 | 85 |
| Contractio penodedig | 31,824 | 260 | 292 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **360,437** | **2,949** | **3,398** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 25,635 | 210 | 348 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 2,641 | 22 | 22 |
| Tanwydd a thrwsio | 40,366 | 330 | 344 |
| Dibrisiant peiriannau | 31,274 | 256 | 287 |
| Costau ffermio cyffredinol | 34,274 | 280 | 324 |
| Costau tir | 15,375 | 126 | 130 |
| Dibrisiant adeiladau | 20,071 | 164 | 202 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **169,636** | **1,388** | **1,657** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **530,073** | **4,337** | **5,055** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **197,444** | **1,616** | **2,798** |
| Rhent | 7,215 | 59 | 38 |
| Cyllid | 23,637 | 193 | 173 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **166,592** | **1,364** | **2,587** |
| Llafur di-dâl | 16,820 | 138 | 113 |

# FFERMYDD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL 2022/23

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 26 | 1 | 36 |
| CYFANSWM ASEDAU | 2,496,876 | - | 2,464,067 |
| CYFANSWM DYLEDION | 352,402 | - | 771,572 |
| **GWERTH NET** | **2,144,474** | **-** | **1,692,495** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 86 | - | 69 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 117.26 | 111.36 |
| Ydau a chnydau eraill | 1.67 | 0.19 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 11.83 | 12.97 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **130.76** | **124.52** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **122.21** | **114.12** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod godro | 181 | 225 |
| Buchod sugno | 2 | 0 |
| Gwartheg eraill | 166 | 170 |
| Defaid magu | 185 | 67 |
| Defaid eraill | 116 | 36 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 7,245 | 7,325 |
| Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch) | 2,370 | 2,608 |
| Gwerthiant llaeth (£ y fuwch) | 3,260 | 3,418 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 45.62 | 47.08 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 2.08 | 2.37 |

# FFERMYDD GODRO LLAWR GWLAD 2022/23

## DATA FFERM GYFAN

Nifer o ffermydd: 53

| | Pob fferm | | Traean uchaf |
|---|---|---|---|
| **ALLBYNNAU** | **£/fferm** | **£/eff.ha.** | **£/eff.ha.** |
| Buchod godro - llaeth | 760,922 | 5,459 | 9,717 |
| - allbwn arall | 11,163 | 80 | 115 |
| Gwartheg eraill | 85,643 | 614 | 847 |
| Defaid | 4,530 | 32 | 0 |
| Cnydau a phorthiant | 12,785 | 92 | 1 |
| Taliad Sylfaenol | 21,440 | 154 | 172 |
| Cymorthdaliadau anuniongyrchol | 565 | 4 | 2 |
| Incwm o gynhyrchu egni | 2,526 | 18 | 27 |
| Incwm amrywiol | 6,061 | 43 | 55 |
| **CYFANSWM ALLBYNNAU** | **905,635** | **6,496** | **10,936** |
| | | | |
| **MEWNBYNNAU** | | | |
| Bwydydd | 232,224 | 1,666 | 2,958 |
| Costau tir pori tymhorol | 34,108 | 245 | 657 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 17,054 | 122 | 194 |
| Costau da byw eraill | 57,594 | 413 | 732 |
| Gwrteithiau | 42,670 | 306 | 438 |
| Costau cnydau eraill | 15,042 | 108 | 124 |
| Contractio penodedig | 39,999 | 287 | 468 |
| **CYF. COSTAU NEWIDIOL** | **438,691** | **3,147** | **5,571** |
| | | | |
| Llafur y telir amdano | 46,809 | 336 | 425 |
| Contractio arall a llogi peiriannau | 2,670 | 19 | 33 |
| Tanwydd a thrwsio | 45,185 | 324 | 449 |
| Dibrisiant peiriannau | 34,107 | 245 | 328 |
| Costau ffermio cyffredinol | 43,188 | 310 | 429 |
| Costau tir | 14,542 | 104 | 165 |
| Dibrisiant adeiladau | 26,700 | 192 | 283 |
| **CYF. COSTAU SEFYDLOG** | **213,201** | **1,530** | **2,112** |
| | | | |
| **CYFANSWM MEWNBYNNAU** | **651,892** | **4,677** | **7,683** |
| | | | |
| **ELW CYN RHENT A CHYLLID** | **253,743** | **1,819** | **3,253** |
| Rhent | 13,083 | 94 | 57 |
| Cyllid | 16,562 | 119 | 180 |
| **ELW AR ÔL RHENT A CHYLLID** | **224,098** | **1,606** | **3,016** |
| Llafur di-dâl | 17,036 | 122 | 155 |

## FFERMYDD GODRO LLAWR GWLAD 2022/23

| MANTOLEN | Wedi'i pherchnogi £/fferm | Tenant £/fferm | Cymysg £/fferm |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 21 | 3 | 29 |
| CYFANSWM ASEDAU | 2,908,270 | - | 2,818,915 |
| CYFANSWM DYLEDION | 268,572 | - | 498,476 |
| **GWERTH NET** | **2,639,698** | **-** | **2,320,439** |
| Cyfran o'r fferm a berchnogir (%) | 91 | - | 82 |

| DATA FFISEGOL<br>ARWYNEBEDD TIR | Pob fferm<br>Hectarau | Traean uchaf<br>Hectarau |
|---|---|---|
| Glaswelltir a chnydau phorthiant | 129.75 | 111.98 |
| Ydau a chnydau eraill | 8.59 | 1.05 |
| Tir pori garw, braenar, coetir a.y.b. | 6.88 | 5.68 |
| **CYF. ARWYNEBEDD (gwirioneddol)** | **145.22** | **118.71** |
| **CYF. ARWYNEBEDD (effeithiol)** | **139.39** | **113.46** |

| DA BYW | Pob fferm<br>Nifer | Traean uchaf<br>Nifer |
|---|---|---|
| Buchod godro | 209 | 260 |
| Buchod sugno | 1 | 0 |
| Gwartheg eraill | 184 | 187 |
| Defaid magu | 50 | 24 |
| Defaid eraill | 37 | 0 |

| DANGOSYDDION PERFFORMIAD | Pob fferm | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 7,967 | 9,130 |
| Mantais dros ddwysfwyd (£ y fuwch) | 2,718 | 3,133 |
| Gwerthiant llaeth (£ y fuwch) | 3,627 | 4,244 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 45.90 | 46.74 |
| Cyfradd stocio (glu/adj. forage ha.) | 2.22 | 2.68 |

## ELW BRAS: DEFAID MYNYDD

| | Pob diadell | Traean uchaf |
|---|---|---|
| | | **2022/23** |
| Nifer o ddiadelloedd yn y sampl | 184 | 61 |
| Maint y ddiadell (i'r hwrdd) | 642 | 623 |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.18 | 1.36 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y ddafad** | **£ y ddafad** |
| Gwerthiant ŵyn - stôr | 8.51 | 5.27 |
| Gwerthiant ŵyn - wedi'u pesgi | 72.93 | 104.32 |
| Gwerthiant defaid eraill | 20.19 | 27.03 |
| Gwerthiant gwlân | 0.93 | 1.08 |
| Amrywiol | 0.01 | 0.01 |
| Newid mewn gwerth | 2.18 | 3.81 |
| Pryniant defaid | -8.16 | -9.91 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **96.59** | **131.61** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 23.55 | 23.54 |
| Costau tir pori tymhorol | 3.52 | 3.27 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 6.73 | 8.08 |
| Costau da byw eraill | 7.66 | 9.55 |
| Contractio penodedig | 2.19 | 2.19 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 14.72 | 14.89 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **58.37** | **61.52** |
| **ELW BRAS** | **38.22** | **70.09** |

## ELW BRAS: DEFAID UCHELDIR

| | Pob diadell | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o ddiadelloedd yn y sampl | 66 | 22 |
| Maint y ddiadell (i'r hwrdd) | 469 | 510 |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.39 | 1.52 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y ddafad** | **£ y ddafad** |
| Gwerthiant ŵyn - stôr | 7.83 | 0.09 |
| Gwerthiant ŵyn - wedi'u pesgi | 116.24 | 147.42 |
| Gwerthiant defaid eraill | 22.54 | 24.57 |
| Gwerthiant gwlân | 0.95 | 0.94 |
| Amrywiol | 0.02 | 0.01 |
| Newid mewn gwerth | 2.40 | 6.14 |
| Pryniant defaid | -15.01 | -20.01 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **134.97** | **159.16** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 23.83 | 21.16 |
| Costau tir pori tymhorol | 2.98 | 2.65 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 7.26 | 7.75 |
| Costau da byw eraill | 10.00 | 10.18 |
| Contractio penodedig | 2.10 | 2.03 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 22.95 | 19.91 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **69.12** | **63.68** |
| **ELW BRAS** | **65.85** | **95.48** |

## ELW BRAS: DEFAID LLAWR GWLAD

| 2022/23 | Pob diadell | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o ddiadelloedd yn y sampl | 34 | 11 |
| Maint y ddiadell (i'r hwrdd) | 383 | 360 |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.39 | 1.51 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y ddafad** | **£ y ddafad** |
| Gwerthiant ŵyn - stôr | 1.30 | 1.14 |
| Gwerthiant ŵyn - wedi'u pesgi | 139.46 | 171.84 |
| Gwerthiant defaid eraill | 24.03 | 31.61 |
| Gwerthiant gwlân | 0.98 | 0.76 |
| Amrywiol | 0.00 | 0.00 |
| Newid mewn gwerth | 4.75 | 4.97 |
| Pryniant defaid | -23.13 | -30.53 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **147.39** | **179.79** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 27.18 | 21.47 |
| Costau tir pori tymhorol | 3.12 | 2.89 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 7.60 | 6.97 |
| Costau da byw eraill | 11.86 | 12.64 |
| Contractio penodedig | 2.00 | 1.49 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 16.86 | 13.70 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **68.62** | **59.16** |
| **ELW BRAS** | **78.77** | **120.63** |

## ELW BRAS: BUCHOD SUGNO LLAWR GWLAD

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 21 | 7 |
| Maint y fuches (buchod magu) | 56 | 62 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.88 | 0.97 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen) | 1,496 | 1,537 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 1,044 | 1,027 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Gwerthiant lloi a gwartheg stôr | 588.93 | 470.92 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 169.53 | 140.77 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi | 494.04 | 786.02 |
| Newid mewn gwerth | 9.41 | 38.07 |
| Pryniant gwartheg | -179.88 | -165.44 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **1,082.03** | **1,270.34** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 204.67 | 109.57 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 35.10 | 31.88 |
| Costau da byw eraill | 112.14 | 131.70 |
| Contractio penodedig | 24.46 | 29.08 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 227.91 | 238.60 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **604.28** | **540.83** |
| **ELW BRAS** | **477.75** | **729.51** |

## ELW BRAS: BUCHOD SUGNO UCHELDIR

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| | | **2022/23** |
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 29 | 10 |
| Maint y fuches (buchod magu) | 51 | 59 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.89 | 0.91 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen) | 1,502 | 1,545 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 997 | 1,121 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Gwerthiant lloi a gwartheg stôr | 704.41 | 560.98 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 192.95 | 211.63 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi | 308.90 | 539.40 |
| Newid mewn gwerth | 64.44 | 133.80 |
| Pryniant gwartheg | -221.62 | -226.30 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **1,049.08** | **1,219.51** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 170.62 | 181.54 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 55.97 | 46.31 |
| Costau da byw eraill | 93.73 | 89.49 |
| Contractio penodedig | 18.33 | 10.24 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 221.28 | 167.20 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **559.93** | **494.78** |
| **ELW BRAS** | **489.15** | **724.73** |

## ELW BRAS: BUCHOD SUGNO MYNYDD

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 103 | 34 |
| Maint y fuches (buchod magu) | 43 | 39 |
| Lloi a fegir (nifer y fuwch) | 0.88 | 0.91 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi (£ y pen) | 1,461 | 1,525 |
| Gwerthiant gwartheg stôr (£ y pen) | 1,044 | 1,149 |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Gwerthiant lloi a gwartheg stôr | 789.75 | 841.38 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 173.09 | 187.76 |
| Gwerthiant gwartheg wedi'u pesgi | 279.95 | 412.60 |
| Newid mewn gwerth | 18.92 | 16.57 |
| Pryniant gwartheg | -237.88 | -229.69 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **1,023.83** | **1,228.62** |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 267.51 | 198.28 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 42.04 | 44.18 |
| Costau da byw eraill | 93.80 | 101.34 |
| Contractio penodedig | 9.64 | 7.26 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 175.00 | 171.31 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **587.99** | **522.37** |
| **ELW BRAS** | **435.84** | **706.25** |

## ELW BRAS: BUCHOD GODRO ARDALOEDD LLAI FFAFRIOL 2022/23

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 57 | 19 |
| Maint y fuches (buchod godro) | 182 | 195 |
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 7,228 | 8,435 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 45.68 | 47.92 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Llaeth | 3,300.32 | 4,042.14 |
| Lloi | 145.35 | 158.34 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 225.84 | 315.05 |
| Newid mewn gwerth | 12.29 | -24.31 |
| Pryniant gwartheg | -352.39 | -373.53 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **3,331.41** | **4,117.69** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 940.26 | 1,084.11 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 62.37 | 76.12 |
| Costau da byw eraill | 197.83 | 236.52 |
| Contractio penodedig | 52.12 | 59.68 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 277.30 | 295.88 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **1,529.88** | **1,752.31** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **1,801.53** | **2,365.38** |

## ELW BRAS: BUCHOD GODRO LLAWR GWLAD

| | Pob buches | Traean uchaf |
|---|---|---|
| Nifer o fuchesi yn y sampl | 47 | 16 |
| Maint y fuches (buchod godro) | 200 | 210 |
| Llaeth a gynhyrchir (litrau y fuwch) | 8,038 | 9,760 |
| Pris llaeth (ceiniogau y litr) | 46.25 | 45.86 |
| | | |
| **ALLBWN Y FENTER** | **£ y fuwch** | **£ y fuwch** |
| Llaeth | 3,717.68 | 4,476.85 |
| Lloi | 148.38 | 165.14 |
| Gwerthiant teirw a buchod | 250.96 | 333.19 |
| Newid mewn gwerth | 13.35 | 14.40 |
| Pryniant gwartheg | -370.20 | -441.63 |
| **CYFANSWM ALLBWN Y FENTER** | **3,760.17** | **4,547.95** |
| | | |
| **COSTAU NEWIDIOL** | | |
| Porthiant a bwyd wedi'i brynu | 1,018.20 | 1,282.32 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 72.80 | 83.73 |
| Costau da byw eraill | 253.62 | 299.86 |
| Contractio penodedig | 61.61 | 53.23 |
| Costau newidiol cynhyrchu porthiant | 278.76 | 280.34 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **1,684.99** | **1,999.48** |
| | | |
| **ELW BRAS** | **2,075.18** | **2,548.47** |

## COSTAU CYNHYRCHU CIG OEN 2022/23

| Ceiniogau y kg pwysau byw | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 120 | 40 | 40 |
| Bwyd | 59.23 | 46.41 | 71.02 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 14.42 | 12.10 | 16.66 |
| Costau da byw eraill | 23.04 | 20.12 | 25.09 |
| Porthiant | 33.94 | 26.40 | 42.11 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **130.63** | **105.03** | **154.88** |
| **ADNEWYDDU DIADELL** | **18.88** | **15.70** | **26.18** |
| Llafur y telir amdano | 6.09 | 3.80 | 9.09 |
| Pŵer a pheiriannau | 60.02 | 43.12 | 86.58 |
| Adeiladau | 17.53 | 11.53 | 25.18 |
| Costau fferm cyffredinol | 26.72 | 19.45 | 36.20 |
| Rhent | 10.16 | 7.13 | 15.36 |
| Cyllid | 7.50 | 3.78 | 10.86 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **128.02** | **88.81** | **183.27** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **277.53** | **209.54** | **364.33** |
| **ELW NET** | **-22.24** | **55.20** | **-114.27** |
| Ŵyn a fegir (nifer y ddafad) | 1.29 | 1.41 | 1.18 |
| Maint y ddiadell | 593 | 615 | 547 |
| Cyfartaledd oen pwysau byw (kg) | 40.50 | 41.68 | 39.78 |

## COSTAU CYNHYRCHU LLAETH

| Ceiniogau y litr | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 104 | 35 | 34 |
| Bwyd | 12.12 | 10.46 | 13.96 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 0.90 | 0.77 | 0.90 |
| Costau da byw eraill | 3.64 | 3.00 | 4.10 |
| Porthiant | 3.75 | 3.15 | 4.22 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **20.41** | **17.38** | **23.18** |
| **ADNEWYDDU BUCHES** | **1.50** | **0.85** | **2.47** |
| Llafur y telir amdano | 1.21 | 1.07 | 1.52 |
| Pŵer a pheiriannau | 3.44 | 3.18 | 3.92 |
| Adeiladau | 1.69 | 1.66 | 2.03 |
| Costau fferm cyffredinol | 1.88 | 1.79 | 1.94 |
| Rhent | 0.47 | 0.39 | 0.49 |
| Cyllid | 0.79 | 0.79 | 1.00 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **9.48** | **8.88** | **10.90** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **31.39** | **27.11** | **36.55** |
| **ELW NET** | **16.40** | **23.37** | **9.14** |
| Mantais dros ddwysfwyd | 34.24 | 38.29 | 30.43 |
| Pris llaeth | 45.61 | 47.99 | 43.56 |

## COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: LLOI SUGNO 2022/23

| Ceiniogau y kg pwysau byw | Pob fferm | Traean uchaf | Traean isaf |
|---|---|---|---|
| Nifer o ffermydd | 27 | 9 | 9 |
| Bwyd | 17.90 | 9.25 | 28.42 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 12.26 | 10.63 | 12.63 |
| Costau da byw eraill | 22.32 | 15.59 | 26.87 |
| Porthiant | 44.34 | 35.23 | 59.59 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **96.82** | **70.70** | **127.51** |
| **ADNEWYDDU BUCHES** | **-9.29** | **-20.59** | **0.41** |
| Llafur y telir amdano | 6.77 | 3.30 | 7.66 |
| Pŵer a pheiriannau | 62.96 | 45.24 | 80.12 |
| Adeiladau | 26.16 | 8.82 | 40.60 |
| Costau fferm cyffredinol | 31.73 | 25.30 | 41.73 |
| Rhent | 6.72 | 2.46 | 9.19 |
| Cyllid | 7.79 | 3.95 | 11.60 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **142.13** | **89.07** | **190.90** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **229.66** | **139.18** | **318.82** |
| **ELW NET** | **-25.58** | **62.15** | **-115.68** |

Mae cynhyrchu lloi sugno yn cyfeirio at gostau buchod sugno a'u lloi hyd at adeg diddyfnu.

## COSTAU CYNHYRCHU CIG EIDION: PESGI

| Ceiniogau y kg pwysau byw | Pob fferm |
|---|---|
| Nifer o ffermydd | 10 |
| Bwyd | 109.70 |
| Milfeddygol a meddyginiaethau | 6.98 |
| Costau da byw eraill | 33.21 |
| Porthiant | 66.65 |
| **CYFANSWM COSTAU NEWIDIOL** | **216.54** |
| Llafur y telir amdano | 6.80 |
| Pŵer a pheiriannau | 75.11 |
| Adeiladau | 24.53 |
| Costau fferm cyffredinol | 28.39 |
| Rhent | 10.02 |
| Cyllid | 4.06 |
| **CYFANSWM COSTAU SEFYDLOG** | **148.91** |
| **CYFANSWM COSTAU** | **365.45** |
| **ELW NET** | **-30.52** |

Mentrau pesgi yw'r rai hynny sy'n prynu gwartheg cryfion ag ifanc, a'r rhai sy'n pesgi lloi fagwyd ar y fferm ar ôl diddyfnu.

## Anghenion Elw Fferm

Mae’n rhaid cael elw er mwyn ariannu:

Codi arian personol o’r busnes,
Ad-dalu benthyciadau (cyfalaf),
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf,
Treth bersonol, a
Risg a gwobrwyo ymdrech entrepreneuraidd

Mae’r cyfrifiad canlynol yn helpu i benderfynu a oes elw digonol i sicrhau digon o adnoddau ariannol:

**Elw fel y dangosir yn y cyfrifon**

**Plws:** Costau dibrisiant am y flwyddyn
Stoc gychwynnol (da byw a storfeydd eraill)
Dyledwyr cychwynnol a chredydwyr terfynol
Benthyciadau / HP wedi’u codi a chyfalaf a gyflwynwyd
Gwerthu tir a pheiriannau

**Tynnu:** Stoc derfynol (da byw a storfeydd eraill)
Dyledwyr terfynol a chredydwyr cychwynnol
Cynnyrch wedi’i ddefnyddio/bwyta ar y fferm

**Hafal i:** Arian i dalu am ymrwymiadau

**Tynnu:** Codi arian personol o’r busnes
Ad-daliadau benthyciadau / HP (cyfalaf)
Gwariant / buddsoddiad cyfalaf
Treth bersonol

**Hafal i:** Llif Arian Net Blynyddol (LIANB)

Yn ddelfrydol dylai’r LIANB fod yn bositif gan amlaf (i’w weld fel gwelliant ym malans banc / dyledion y fferm). Yr eitemau sydd yn dylanwadu fwyaf ar y tebygolrwydd y bydd y LIANB yn bositif yw:

Maint yr elw
Lefel y codi arian personol
Gwariant cyfalaf
Ad-dalu benthyciadau / HP

Gall LIANB negyddol (h.y. proffidioldeb fferm annigonol ac/neu alw mawr ar arian parod) effeithio’n sylweddol ar hyfywdra y busnes yn y tymor hir.